ATODLEN 5

Cofnodion

**Cofnodion ychwanegol**

**2.**—(1) Ar gyfer pob cyflenwad y cyfeirir ato ym mharagraff 1(1), rhaid i'r awdurdod lleol gofnodi pob un o'r canlynol o fewn 28 diwrnod ar ôl iddynt ddigwydd—

(a) plan a disgrifiad o'r cyflenwad;

(b) rhaglen fonitro'r cyflenwad;

(c) yr asesiad risg;

(d) crynodeb o ganlyniadau'r asesiad risg;

(e) crynodeb o'r rhesymau dros wneud penderfyniad i leihau monitro paramedr penodol o dan Ran 4 o Atodlen 2, neu ei eithrio yn llwyr;

(f) dyddiad, canlyniadau a lleoliad unrhyw samplu a dadansoddi mewn perthynas â'r cyflenwad hwnnw, a'r rheswm dros gymryd y sampl;

(g) canlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â'r Rheoliadau hyn;

(h) unrhyw awdurdodiad;

(i) unrhyw hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 80 o'r Ddeddf, neu reoliad 20;

(j) unrhyw gamau gweithredu y cytunir sydd i'w cymryd gan unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn;

(k) unrhyw gais a wneir i'r awdurdod lleol i gyflawni gwaith samplu a dadansoddi, cynnal asesiad risg neu roi cyngor;

(l) crynodeb o unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cyflenwad.

(2) Rhaid iddo gadw'r asesiad risg a'r cofnodion samplu a dadansoddi am o leiaf 30 mlynedd, a chadw pob cofnod arall o dan y paragraff hwn am o leiaf 5 mlynedd.